



Rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr - 1 Ebrill 2022



Beth yw'r pwyntiau allweddol?

- Mae rheolwyr gofal cartref wedi gorfod cofrestru gyda ni ers 2014
- Mae 975 o reolwyr wedi cofrestru, sy'n ostyngiad bach o'r 977 a oedd wedi cofrestru y llynedd
- 48 yw oedran cyfartalog rheolwyr.



Faint sydd wedi ymuno ac ymadael â'r Gofrestr?

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaeth 126 o reolwyr ymuno â'r Gofrestr a gadawodd 128
- Wnaeth 54% o'r rhai adawodd ddim parhau â'u cofrestriad
- Doedd 14% ddim yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru mwyach
- Parhaodd 12.5% ar y Gofrestr mewn rôl wahanol
- Fe wnaeth 6% ymddeol.



Ble mae rheolwyr yn cael eu cyflogi?

- Mae 57% yn gweithio yn y sector preifat
- Mae 25.5% yn gweithio yn y trydydd sector
- Mae 14% yn gweithio mewn gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- Mae 27% o reolwyr wedi bod yn eu swydd bresennol ers dros 10 mlynedd
- Mae 49% o reolwyr wedi newid i rôl newydd yn y pum mlynedd diwethaf.



Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

- Mae nifer y rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr wedi cynyddu 54% ers 2017
- Mae'r gymhareb menywod: dynion wedi parhau'r un fath ar oddeutu 4:1
- Mae canran y rheolwyr sydd naill ai'n siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl wedi cynyddu o 34% yn 2017 i 38% eleni
- Mae'r ganran sy'n gweithio yn y sector preifat wedi gostwng o 60% yn 2017 i 57% eleni.



Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

- Mae gan bob rheolwr gofal cartref gymhwyster perthnasol
- Mae gan 54.5% Ddiploma Lefel 5 FfCCh mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Mae gan bawb arall gymhwyster NVQ Lefel 4 neu gymhwyster cyfatebol derbyniol arall.



Beth yw proffil rheolwyr?

- Roedd 782 o'r rheolwyr yn fenywod a 193 yn ddynion
- Mae 96% o reolwyr nail ai'n wyn, yn wyn Prydeinig, yn wyn Cymreig neu'n wyn Gwyddelig
- Mae 74% o reolwyr dros 40 oed a 48% dros 50 oed
- Mae 38% o reolwyr yn siarad rhywfaint o Gymraeg neu'n rhugl
- Mae gan 2% o reolwyr anabled.